

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Y MÔR A PHYSGODFEYDD

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MÔR

MEHEFIN 2019

Cyflwyniad

Mae Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) yn darparu fforwm ar gyfer trin a thrafod ac yn cynnig cymorth a chyngor i Lywodraeth Cymru, ar bolisi morol ac arfordirol strategol. Dyma'r grŵp rhanddeiliaid troswaol ar gyfer gwaith Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, sy'n mynd law yn llaw â'r Grŵp Gweithredu Pysgodfeydd Morol Cymru (WMFAG) sef prif fforwm Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant pysgodfeydd yng Nghymru.

Mae'r WMAAG yn cynnwys 32 o randdeiliad arweiniol sy'n cynrychioli buddiannau pob sector sydd â diddordeb neu fuddsoddiad yn y môr yng Nghymru. Mae manylion y sectorau a'r sefydliadau arweiniol i'w gweld yng [nghylch gorchwyl](#) y grŵp.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddiweddariad gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru ac mae hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf gan aelodau'r WMAAG.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Ers i'r ymgynghoriad ar ddrafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (dWNMP) ddod i ben, rydym wedi bod yn mireinio fersiynau terfynol y polisïau yn y cynllun ac yn penderfynu ar y testun gyda mewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Ar ddiwedd mis Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod adborth gydag aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol. Roedd ein rhanddeiliaid yn croesawu'r cynllun wedi'i ailddrafftio ac roedden nhw'n cydnabod yr ymgysylltu a oedd wedi digwydd ers yr ymgynghoriad. Dros yr wythnosau diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio gydag arweinwyr



DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

polisi Llywodraeth Cymru a'r DU i gymeradwyo'r polisïau yn y cynllun - bydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau erbyn diwedd y gwanwyn.

Roedd adborth gan randdeiliaid yn dangos bod angen canllawiau gweithredu manwl - ac roedd hyn yn wreiddiol yn rhan o'r dWNMP. Fodd bynnag, nododd llawer fod hyd a chymhlethdod y ddogfen yn golygu nad oedd y polisïau a'r amcanion allweddol yn glir. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio'r dWNMP cyn ei fabwysiadu er mwyn ei fyrhau a gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr. Rydym wedi gwahanu'r canllawiau gweithredu a'r dystiolaeth sylfaenol (o'r cynllun craidd) mewn fframwaith ategol, ac mae'n cael ei ddatblygu gyda mewnbyn gan randdeiliaid.

Mae ymgysylltu hefyd yn mynd rhagddo'n dda gyda'r grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (MPDMG), sy'n cynnwys awdurdodau cyhoeddus perthnasol a fydd angen gwneud penderfyniadau yn unol â'r cynllun pan ddaw i rym. Mae tri chyfarfod wedi'u cynnal ers yr haf.

Mae gwaith y Gweithgor Technegol a gafodd ei sefydlu i ystyried y Polisi Morlyn Llanw a chanlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd bellach wedi'i gwblhau ac mae cyngor y gweithgor wedi mynd at y Gweinidog.

Bwriedir cyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn ystod haf 2019 ac rydym yn adolygu'r angen am ymchwiliad annibynnol yn rheolaidd.

Cyswllt: Marineplanning@gov.wales

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Mae gwaith ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw mynd rhagddo, yn dilyn ymgynghoriad ar y prif faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir rhwng 30 Ebrill a 23 Gorffennaf 2018. Bydd y drafft FfDC yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019.

Mae rhagor o fanylion ar wefan y FfDC yma: www.llyw.cymru/ffdc

Strategaeth Forol y DU

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Mae Rheoliadau'r Strategaeth Forol 2010 (y "Rheoliadau") yn ei gwneud yn ofynnol i weinyddiaethau'r DU gymryd camau i gyflawni neu gynnal Statws Amgylcheddol Da yn ein moroedd erbyn 2020 (yn amodol ar eithriadau penodol).

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn cydweithrediad â gweinyddiaethau'r DU, gynhyrchu strategaeth forol ar gyfer dyfroedd y DU. Cyhoeddwyd y strategaeth forol yn 2012 ac mae'n cynnwys yr elfennau canlynol, sy'n cael eu hadolygu'n unigol bob chwe blynedd yn unol â'r Rheoliadau. Cyfuniad o'r tair rhan hyn sy'n ffurfio Strategaeth Forol gyffredinol y DU:

Rhan 1 Strategaeth Forol y DU: asesiad o ddyfroedd morol, amcanion ar gyfer Statws Amgylcheddol Da a thargedau a dangosyddion i fesur cynnydd tuag at Statws Amgylcheddol Da (cyhoeddwyd am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2012);
Rhan 2 Strategaeth Forol y DU: rhestru'r rhaglenni monitro sy'n monitro cynnydd yn erbyn y targedau a'r dangosyddion (cyhoeddwyd ym mis Awst 2014, angen adolygiad yn 2020); a
Rhan 3 Strategaeth Forol y DU: nodi rhaglen o fesurau ar gyfer cyflawni Statws Amgylcheddol Da (cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, angen adolygiad yn 2021).

Rydym wedi bod yn cydweithio â gweinyddiaethau eraill y DU, Ymgynghorwyr Cadwraeth Natur statudol y DU ac arbenigwyr gwyddonol o'r DU a Chomisiwn OPSAR, i adolygu a diweddarau Rhan 1 y Strategaeth Forol er mwyn asesu a dangos ein cynnydd o ran cyflawni Statws Amgylcheddol Da yn y DU rhwng 2012-2018. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi lansio ymgynghoriad ar y cyd, a fydd yn rhedeg o 9 Mai tan 17 Mehefin. Mae'r ymgynghoriad yn cwmpasu asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r un ar ddeg cydran neu ddisgrifydd ecosystem gan ddefnyddio'r targedau a bennwyd ar gyfer Statws Amgylcheddol Da yn Rhan Un y Strategaeth Forol yn 2012.

Mae'r cynigion yn cynnwys diweddarau amcanion, targedau a thargedau gweithredol lefel uchel i'w defnyddio ar gyfer y cyfnod 2018 i 2024. Mae'r rhain yn datblygu ar y rhai a bennwyd yn 2012 ac yn ystyried canfyddiadau'r asesiad a'r datblygiadau tuag at gyflawni targedau, dangosyddion a throthwyon cydgysylltiedig yn genedlaethol, yn yr Undeb Ewropeaidd ac yng Nghonfensiwn OSPAR ar gyfer Diogelu Gogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd.

Mae'r Offeryn Asesu Morol Ar-lein cyntaf (MOAT) yn rhoi cefnogaeth i'r ymgynghoriad, ac mae'n cynnwys y dystiolaeth a ddefnyddir i asesu cynnydd tuag at Statws Amgylcheddol Da. Mae MOAT yn sicrhau bod y wyddoniaeth fanwl sy'n sail i'r asesiadau ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch i bawb.

Mae'r ymgynghoriad a'r Offeryn Asesu Morol Ar-lein ar gael yma:
https://llyw.cymru/rhan-un-or-strategaeth-forol-asesiad-wedii-ddiweddaru-ar-gyfer-y-du-statws-amgylcheddol-da-saesneg?_ga=2.152128187.384791214.1562069851-954908394.1544693910 A fydddech cystal â sicrhau bod yr holl ymatebion yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at DEFRA os gwelwch yn dda.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer y Llamhidydd

Amcanion Cadwraeth a Chyngor ar Weithgareddau

Mae amcanion cadwraeth terfynol a chyngor ar ddogfennau gweithgareddau ar y tair ardal cadwraeth arbennig ar gyfer y llamhidydd nawr ar gael ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a gwefan CNC:

Ceg Môr Hafren: http://jncc.defra.gov.uk/pdf/BristolChApproaches_ConsAdvice.pdf

Ardal Forol Gogledd Ynys Môn:
http://jncc.defra.gov.uk/pdf/NAnglesey_ConsAdvice.pdf

Ardal Forol Gorllewin Cymru:
http://jncc.defra.gov.uk/pdf/WestWales_ConsAdvice.pdf

Rhwydwaith Wystrys Brodorol

Mae'r rhwydwaith wystrys brodorol yn cysylltu prosiectau adfer wystrys brodorol, cwmnïau cynhyrchu a physgodfeydd, sy'n gweithio yn y DU ac Iwerddon. Dilynwch y ddolen a chliciwch ar y map i gael rhagor o wybodaeth am Brosiect Adfer Wystrys Brodorol Cymru dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r prosiect pedair blynedd yn dod o dan adain Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ymchwilio i gwestiynau'n ymwneud â'r dull o adfer wystrys brodorol yn Nyfrffordd Aberdaugleddau a'i ymarferoldeb.



[https://nativeoysternetwork.org/restoration-projects-partnerships/;](https://nativeoysternetwork.org/restoration-projects-partnerships/)

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Morol Cymru (WMFAG)

Mae manylion llawn adroddiadau cynnydd ac adroddiadau cangen gweithrediadau'r Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Morol Cymru (WMFAG) ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-bysgodfeydd-mor-cymru?_ga=2.80832149.384791214.1562069851-954908394.1544693910

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Pysgodfeydd a Brexit

Mae'r holl newyddion diweddaraf am Brexit mewn perthynas â'r diwydiant a masnach pysgodfeydd ar gael yn y Bwletin Brexit. Mae'r bwletinau hyn ar gael ar ein gwefan neu gallwch danysgrifio i'w derbyn yn uniongyrchol i'ch mewnlwch.

https://llyw.cymru/cofrestrwch-i-fwletin-pysgodfeydd-brexit?_ga=2.189866793.384791214.1562069851-954908394.1544693910



1. Cynllun Bioddiogelwch ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau: Prosiect EMFF

Ym mis Hydref 2018, llwyddodd Cyfoeth Naturiol Cymru i ennill cyllid o £188,000 gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) ar gyfer prosiect o'r enw "Cynllun Bioddiogelwch ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau" (ACA PLAS). Dechreuodd y prosiect, sy'n cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan y grant EMFF, ar 1 Ebrill 2019, a bydd yn mynd rhagddo am dair blynedd. Bydd gwaith y prosiect o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan y Swyddog Prosiect, Kate Griffith.

Cefndir y project a chrynodeb

Mae Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) morol yn fygythiad sylweddol i fioamrywiaeth fyd-eang, a gallant gael effeithiau cymdeithasol ac economaidd niweidiol ar weithgareddau fel pysgota, siopa a dyframaethu. Gall mesurau bioddiogelwch atal cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol a chyfyngu ar y tebygolrwydd y bydd rhywogaeth yn cyrraedd ardal yn y lle cyntaf; mae mesurau o'r fath yn arbennig o bwysig i ecosystemau morol, lle dangoswyd bod technegau dileu a rheoli yn llai effeithiol.

Bydd y prosiect EMFF hwn yn datblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer ACA PLAS ac yn llywio gweithrediad hirdymor cynllunio bioddiogelwch effeithiol ar gyfer rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig Cymru. Un agwedd hollbwysig ar y prosiect yw ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fel pysgotwyr lleol a Grŵp Cyswllt yr ACA. Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno mewn tri phhecyn gwaith a fydd yn;

- 1) Casglu tystiolaeth i danategu cynllunio bioddiogelwch ar gyfer PLAS:
 - Asesu a mapio hyd a lled rhywogaethau estron goresgynnol yn y safle
 - Asesu effeithiau posibl y rhywogaethau estron yma ar nodweddion a physgodfeydd
 - Archwilio llwybrau cyflwyno a lledaenu
 - Gweithio gyda physgotwyr i adolygu allbynnau o'r dystiolaeth a gasglwyd
- 2) Datblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer PLAS i leihau cyflwyniadau anthropogenig newydd a lleihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol cyfredol i gynnwys:
 - Cynlluniau gweithredu ar gyfer llwybrau cyflwyno a lledaenu risg uchel
 - Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau
 - Cynlluniau gweithredu monitro, rheoli a hybu ymwybyddiaeth
- 3) Rhoi'r cynllun bioddiogelwch ar waith a monitro'i effeithiolrwydd:
 - Gweithdai i hyrwyddo'r cynllun bioddiogelwch

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sefydlu'r cynllun drwy bolisïau cynllunio a thrwyddedau lleol
- Ymarferiad gwersi a ddysgwyd

2. Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol – SoNaRR 2

Prif ddiben SoNaRR yw adrodd ar statws adnoddau naturiol Cymru i olrhain y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol. Wrth gyflawni hyn, bydd SoNaRR yn sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol ar gael i Weinidogion Cymru bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar lefel genedlaethol yn ogystal â gwybodaeth i lywio dewis meysydd priodol ar gyfer gweithredu'r blaenoriaethau hynny gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Medi 2016. Disgwylir y nesaf ym mis Rhagfyr 2020.

Yn ogystal â'r prif adroddiad, byddwn yn cynhyrchu adroddiad Interim ym mis Rhagfyr 2019, a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Polisi Adnoddau Naturiol nesaf. Pwrpas yr adroddiad Interim yw:

- Disgrifio'r newidiadau sy'n dod i'r amlwg o ran yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym ers y SoNaRR diwethaf.
- Disgrifio bylchau tystiolaeth sydd newydd eu hadnabod ac unrhyw ddiweddariad i fylchau tystiolaeth a nodwyd yn flaenorol; sut mae llenwi'r bylchau yn cael ei flaenoriaethu a chynnwys unrhyw waith sy'n cael ei gychwyn i fynd i'r afael â hwy.
- Cynnwys diweddariad ar edrychiad a naws yr adroddiad nesaf.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynllunio'r SoNaRR nesaf. Rydym wedi cytuno ar y dull, gan ddatblygu ar yr adroddiad cyntaf, ac rydym yn chwilio am unigolion a sefydliadau i helpu i gyfrannu at yr adroddiad nesaf. Rydym hefyd eisiau deall sut mae angen i chi ddefnyddio'r wybodaeth yn yr adroddiad. Bydd hyn yn ein helpu i ddylunio fformat yr adroddiad a chynhyrchion eraill.

Rydym yn cysylltu SoNaRR 2 â mentrau eraill. Os ydych chi'n bwydo gwybodaeth i'r broses Datganiad Ardal, yna byddwn yn defnyddio gwybodaeth berthnasol wrth asesu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar lefel Cymru gyfan ar gyfer SoNaRR. Rydym yn ystyried sut y caiff yr adroddiad ei gyflwyno, ynghyd â Datganiadau Ardal a thystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn hysbysu rhanddeiliaid pan fyddwn yn rhagweld y bydd gwaith penodol yn digwydd, felly gall y rhai sy'n gallu helpu fwydo i mewn ar yr adeg briodol.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Byddwn yn seilio ein hasesiad o adnoddau naturiol yn SoNaRR 2 o amgylch pedwar mesur Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR). Mae'r mesurau hyn wedi'u troi'n bedwar amcan SMNR:

1. Stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Mynd i'r afael â gorddefnydd er mwyn sicrhau bod stociau o adnoddau naturiol adnewyddadwy yn cael eu diogelu a'u gwella i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Defnyddir stociau o adnoddau naturiol anadnewyddadwy mewn modd cynaliadwy a, lle nad oes modd osgoi disbyddu, caiff adnoddau amgen eu rhoi yn eu lle i ddiwallu anghenion y dyfodol.

2. Ecosystemau sy'n gydnerth yn wyneb newidiadau disgwyledig ac annisgwyl

Adeiladu cydnerthedd ecosystemau i ddiogelu a *gwella gwasanaethau ecosystem ategol* a mynd i'r afael ag effeithiau newid cynefinoedd, newid yn yr hinsawdd, llygredd, rhywogaethau estron goresgynnol a phwysau eraill a nodwyd.

3. Cyfrannu at economi gylchol gyda defnydd mwy effeithlon o adnoddau naturiol

Lleihau effaith cynhyrchu a defnyddio ar yr amgylchedd a lleihau ein hól troed amgylcheddol yng Nghymru ac yn rhyngwladol, wrth wneud y gorau o fanteision *darparu gwasanaethau ecosystem*.

4. Lleoedd iach yng Nghymru ar gyfer pobl, wedi'u diogelu rhag peryglon amgylcheddol

Mae rheoleiddio amgylcheddol yn amddiffyn pobl rhag peryglon, fel llygredd aer, dŵr a sŵn, llifogydd ac ati. Mae *rheoleiddio a gwasanaethau ecosystemau diwylliannol* yn cael eu rheoli i gynyddu llesiant ac i ddarparu amgylchedd iach i bawb.

Dan Crook sy'n arwain cyfraniad yr ecosystem forol i SoNaRR 2. Cysylltwch â ni os hoffech drafod cymryd rhan. Rhagwelir mai WMAAG fydd y prif lwybr ar gyfer ymgysylltu ar elfen forol SoNaRR 2.

3. Cynghorydd Sbwriel Môr

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer swydd newydd yn ymwneud â sbwriel môr. Bydd y rôl yn cael ei recriwtio ar sail blwyddyn i ddechrau i arwain ar ddarparu cyngor a gwybodaeth dechnegol ac arbenigol ar sbwriel môr i lunio a llywio penderfyniadau, rhaglenni, cynlluniau, canllawiau a strategaethau Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Un o brif agweddau'r rôl fydd integreiddio ar draws swyddogaethau morol, dŵr croyw a gwastraff sy'n ymwneud â sbwriel môr a hyrwyddo dull o'r mynydd i'r môr.

4. Prosiect Canllaw Gwaith Achos yn ymwneud â'r Môr a'r Arfordir

Sefydlodd Cyfoeth Naturiol Cymru brosiect Canllawiau Gwaith Achos yn ymwneud â'r Môr a'r Arfordir (MCCG) yn 2016 ar ôl cydnabod nad oedd llawer o arweiniad ar gyfer datblygiadau morol yng Nghymru. Amcan prosiect MCCG yw:

1. Cynhyrchu canllawiau gwaith achos yn ymwneud â'r môr a'r arfordir sy'n addas i'r diben.
2. Sefydlu dull hirdymor ac effeithlon o reoli a datblygu canllawiau gwaith achos yn ymwneud â'r môr a'r arfordir.

Mae'r MCCG yn darparu dull cydgysylltiedig o ddatblygu canllawiau, gyda llywodraethu a pherchnogaeth briodol gan y Bwrdd Rhaglen Forol. Mae gan dîm rheoli prosiect MCCG gysylltiadau cryf gyda'r rhai sy'n datblygu canllawiau ehangach Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau cysondeb o ran gweithredu. Yn ddiweddar, mae prosiect MCCG wedi gallu sefydlu swydd Cydlynnydd Canllawiau Morol am ddwy flynedd. Bydd hyn yn sicrhau bod y prosiect yn parhau ac yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer rheoli prosiectau a datblygu canllawiau.

Mae'r prosiect wedi sefydlu tudalen we Canllawiau'n ymwneud â'r Môr a'r Arfordir benodol i gael gafeol ar y canllawiau. Bydd yr holl ganllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan. Mae cynnyrch canllaw diweddar yn cynnwys:

- GN003 Deddfwriaeth cadwraeth fertebratau yng Nghymru
- GN006 Setiau data ecoleg forol ar gyfer datblygiadau a gweithgareddau morol
- GN011 Cynaeafu gwyon
- GN030 Canllawiau asesu cynefinoedd benthig ar gyfer datblygiadau a gweithgareddau morol

Mae'r camau nesaf ar gyfer y prosiect yn cynnwys datblygu fframwaith ar gyfer canllawiau'n ymwneud â'r môr a'r arfordir, canllawiau gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a thrawsnewid i gynnwys digidol.

5. Prosiect Gweithgareddau Di-drwydded Cymru

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar y gweithgareddau didrwydded sydd yn peri'r pryder mwyaf ar raddfa'r rhwydwaith yng Nghymru. Mae'n ceisio datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar ddosbarthiad gofodol ac amserol, dwyster ac effeithiau'r

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

gweithgareddau hyn ar nodweddion a ddiogelir oddi mewn i'r rhwydwaith a bydd yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid priodol i nodi a gweithredu ymyriadau rheoli dichonadwy ac ymarferol (e.e. rheoleiddio, cymhellion ariannol, newid ymddygiad ac ati), lle bo angen, i liniaru effeithiau. Cyflwynodd Cam 2 y prosiect (2018/19) waith ar y pedwar maes pwnc blaenoriaeth isod;

- **Pysgota môr hamdden**

Comisiynwyd adolygiad llenyddiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar effeithiau posibl pysgota môr hamdden yng Nghymru. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried a fyddwn yn addasu'r adroddiad drafft yn adroddiad tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

- **Hwyllo hamdden – angori, mwrio a lansio**

Yn 2018/19, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru contract i gynhyrchu haenau o wybodaeth ddaearyddol ar gyfer ardaloedd angori, mwrio a lansio, er mwyn nodi dwysedd y gweithgareddau yma. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio i sicrhau y bydd allbynnau gofodol y gwaith ar gael.

- **Tyrchu am abwyd a chasglu adnoddau byw**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu haenau gweithgaredd drafft i nodi lleoliad y gweithgareddau yma ar arfordir Cymru. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth yma i gynnal rhywfaint o waith ymchwil i adnabod ardaloedd a allai fod yn sensitif i'r gweithgareddau hyn.

- **Mynediad ar droed**

Comisiynwyd adroddiad yn 2018/19 sy'n amlinellu ffyrdd posibl o bennu lleoliad a dwysedd mynediad ar droed o amgylch arfordir Cymru. Bydd hwn ar gael fel adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn fuan. Dyfarnwyd ail contract i Ymddiriedolaeth Adara Prydain (BTO) i fapio lleoliad y clwydi llanw uchel oddi mewn i Ardaloedd Gwarchod Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru. Bydd data o'r contract hwn ar gael ar wefan y BTO.

Cynhaliwyd gweithdy prosiect ar 9 Ebrill 2019 i drafod y camau nesaf posibl ar gyfer Cam 3 y prosiect. Mae allbynnau'r gweithdy hwn yn cael eu trafod ar hyn o bryd gan y tîm prosiect a chynhyrchir cynllun prosiect ar gyfer 2019/20 ym mis Mehefin 2019.

Prosiect Maelgi: Cymru

Cyswllt: Ben Wray (CNC) ben.Wray@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae Prosiect Maelgi: Cymru yn brosiect amlddisgyblaethol sy'n ceisio diogelu un o siarcod mwyaf prin y byd trwy gyfranogiad pysgotwyr, treftadaeth a gwyddoniaeth dinasyddion. Ariennir y prosiect gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri gydag amser staff (Ben Wray – Rheolwr y Prosiect), cymorth ac adnoddau yn cael eu darparu gan CNC.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Mae'r maelgi (*squatina squatina*) mewn perygl difrifol - dyma un o'r siarcod sydd dan y bygythiad mwyaf yn y byd. Yn dilyn dirywiad mawr mewn niferoedd ar draws y byd dros y 100 mlynedd diwethaf, Cymru yw un o'r mannau diwethaf ble mae'r maelgi'n parhau i fodoli, a'r gobaith yw y gellir ei achub rhag marw o'r tir. Mae'r prosiect yn cyfuno cadwraeth a gwyddor gymdeithasol, ac mae o fudd i'r maelgi ac i gymunedau lleol. Trwy ymgysylltu â'r gymuned hŷn, pysgotwyr, deifwyr a phlant ysgol Cyfnod Allweddol 2 mewn pum ardal ffocws o gwmpas Cymru, byddwn yn cyflawni pedwar canlyniad pwysig ar gyfer treftadaeth, pobl a chymunedau:



1. Mae gwybodaeth am statws ac ecoleg maelgwn yng Nghymru yn dod o ddata treftadaeth gymunedol, gwyddoniaeth dinasyddion a data pysgotwyr.
2. Mae pysgotwyr Cymru yn stiwardiaid gwaith cadwraeth y maelgi, ac maent yn darparu data hanfodol ac yn gwella siawns unrhyw faelgi sy'n cael ei ddal o oroesi ar ôl cael ei ryddhau.
3. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael ag unigrwydd yn y gymuned hŷn drwy roi'r cyfle iddynt gyfrannu eu gwybodaeth i helpu i ddiogelu'r maelgi a rhannu hyn gyda chenedlaethau iau
4. Mae Cynllun Gweithredu Maelgwn Cymru, a gaiff ei lywio gan dreftadaeth a gwyddoniaeth, yn cael ei gyhoeddi gydag ymrwymiad i weithredu sydd wedi'i warantu gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol.

Ers dechrau'r prosiect ym mis Mehefin 2018 mae nifer o elfennau oedd yng nghynllun y prosiect wedi'u cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cytundebau partneriaeth prosiect yn eu lle,

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

- Recriwtio staff (Cydlunydd Prosiect),
- Cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llywio,
- Lansio'r prosiect (hunaniaeth weledol, sianelau digidol ac ymgysylltu â'r cyfryngau),
- Cerrig milltir allweddol (erthyglau wedi'u hysgrifennu, datganiadau i'r wasg, cyfweiliadau),
- Cynrychiolaeth o'r prosiect mewn digwyddiadau allweddol (Y Sioe Frenhinol, digwyddiadau prosiect Moroedd Byw Cymru, Fforwm Arfordir Sir Benfro, gweithdy WWF Elasmobranch yn yr Iseldiroedd)
- Cwblhau digwyddiadau sioeau teithiol 'hanes y maelgi' (5 ardal ffocws o gwmpas Cymru)
- Datganiad i'r wasg a sylw yn y cyfryngau yn cyrraedd 39,972,381 o bobl ledled y byd

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019



PROSIECT MAELGI: CYMRU
ANGEL SHARK PROJECT: WALES



Arian yn Rhannol gan
Llywodraeth Cymru
Part funded by
Welsh Government



CRONFA
DREFTADAETH
HERITAGE
FUND

KEY HIGHLIGHTS

5 Angelshark roadshows were completed at Nefyn Maritime Museum, Milford Haven Heritage Museum, National Waterfront Museum (Swansea), The National Library of Wales (Aberystwyth) and Holyhead Sea Cadets. 497 people attended, sharing a number of photos and memories of Angelsharks from Wales, England, Scotland and Ireland.



Angelshark Roadshow at Nefyn Maritime Museum

HLF Approved Purposes	Progress
Recruit Staff	
Establish Steering Group	
Create Brand & Digital	
4 Outreach Events	
Recruit Citizen Scientists	
Train Fishers	
Gather Fisher Records	
2 Dive for Angel Events	
History Roadshow	
History of Angels iBook	
History of Angels Exhibit	
Celebration Events	
Action Plan	
Provide Info/Evidence	
HLF Acknowledgement	



Graham Maddick brought in his Angelshark photo taken in 1960.

QUARTERLY REPORT 3 : DEC – FEB 2019

FISHERS BECOME ANGELSHARK STEWARDS

- 10 informal meetings with fishers completed to talk about the project and distribute leaflets.
- 2 fishers participated in timeline analyses and participatory mapping.

STATUS AND ECOLOGY OF ANGELSHARKS UNDERSTOOD

- Over 80 Angelshark records were shared by fishers dating back to the 1950s.
- 1 new Angelshark record from 2018.
- A variety of Angelshark records were collected in the roadshows: 3 books with Angelshark references, 9 newspaper articles dating back to 1908, 2 fisher logbooks, 3 audio memories, 4 Angelshark photos from Wales and 8 Angelshark photos from Ireland.

SHARING INFORMATION ACROSS THE GENERATIONS

- 5 roadshows completed with 497 attendees.
- Press release and media coverage reached 39,972,381 people globally (47 online articles, 29 broadcast articles and 11 print articles).
- Project filmed for an episode of BBC Blue Planet UK (to be aired in March 2019).
- Web and social media reached 112,163 people

DEVELOPMENT OF WALES ANGELSHARK ACTION PLAN

A FEW HIGHLIGHTS FROM THE ANGELSHARK HISTORY ROADSHOW

We have been delighted by the response to the Angelshark History Roadshows. We would like to thank everyone who attended or contributed one of the amazing new records or memories of Angelsharks in Wales and across the British Isles. Below are some highlights:



GRAHAM'S "BIG FISH DAY" During the Roadshow in Swansea, Graham Maddick brought in a photo of an Angelshark he caught from Swansea pier in 1960, when he was 17 years old. He explained that he had to carry the shark for 2 miles for it to be identified at the local fish market – they told him it was a monkfish (a common name used for Angelshark at the time). He kept hold of the photo and newspaper clippings congratulating him on his catch ever since!

STEVE & STEVE'S COLLAGE OF ANGELSHARKS IN IRELAND

After seeing information about the roadshow broadcast on BBC Breakfast, Steve & Steve drove over 2 hours from the Wirral to share their fishing photo collage which included 2 Angelsharks they caught in Ireland in the 1980s. Best friends, Steve and Steve fish in the Llŷn Peninsula every month and have since encouraged other fishers from the Wirral to share their memories!

DAFYDD JONES – LOGBOOK UNOPENED FOR OVER 25 YEARS

In 1980 Dafydd Jones was a commercial netter who fished in Cardigan Bay targeting thornback ray. He brought a set of his log books to the roadshow held in Nefyn, which hadn't been opened in over 25 years. These logbooks are a treasure trove of information, with details on fishing effort and over 23 new Angelshark records from Wales.



PROSIECT MAELGI: CYMRU
ANGEL SHARK PROJECT: WALES



Arian yn Rhannol gan
Llywodraeth Cymru
Part funded by
Welsh Government



CRONFA
DREFTADAETH
HERITAGE
FUND



PETER DAVIES – RETIRED FISHER

As a full time carer to his wife, Peter was unable to attend the roadshows but wanted to share his Angelshark and fishing memories with the project. We brought the roadshow to his home in Burry Port, whilst travelling between roadshow venues. During the visit Peter not only recalled memories of catching Angelsharks off South Wales, but also shared a variety of fishing magazines he wrote articles for and gave us his old fishing charts showing where he used to catch Angelsharks.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Ail-lenwi Cymru

Hannah Osman – Cydlynnydd Ail-lenwi Cymru




Mae'r Ymgyrch Ail-lenwi yng Nghymru yn mynd o nerth i nerth. Ar hyn o bryd, mae 33 o gynlluniau Ail-lenwi wedi'u sefydlu mewn cymunedau ledled Cymru. Ar 31 Mawrth, roedd 848 o orsafoedd ail-lenwi ac mae mwy'n cael eu hychwanegu'n ddyddiol.

Os ydyn ni'n canolbwyntio ar Lwybr Arfordir Cymru, rwyf ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o sicrhau bod gan bob cymuned fawr gynlluniau ail-lenwi erbyn mis Medi 2019. O 31 cymuned fawr, mae gan 14 gynlluniau ail-lenwi gweithredol ar waith ar hyn o bryd ac mae gan 30 ohonynt o leiaf un orsaf ail-lenwi ar yr ap Ail-lenwi.

O blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae 10 ohonynt yn cymryd rhan yn frwd yn y gwaith o hyrwyddo a chefnogi Ail-lenwi.

Rydw i wedi bod yn gweithio'n agos gyda Hafren Dyfrdwy a drefnodd ddau ddiwrnod gweithredu yn Wrecsam a'r Drenewydd cyn y Nadolig. Gwnaeth eu gwirfoddolwyr waith a helpodd i sefydlu gorsafoedd ail-lenwi newydd yn y ddwy dref.



Rydw i hefyd wedi bod yn gweithio gyda Dŵr Cymru ar nifer o ddigwyddiadau ac maen nhw wedi bod yn rhoi cyngor ac arweiniad ar osod ffynhonnau dŵr a thapiau mewn digwyddiadau.

Rydw i wedi bod yn gweithio'n agos ac yn cydweithio â nifer o sefydliadau, busnesau ac elusennau i helpu i hyrwyddo'r ymgyrch Ail-lenwi gan ddwyn sylw at lygredd plastig yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Maes Awyr Caerdydd: Ffynhonnau dŵr
- Cadwch Gymru'n Daclus: ymgyrch cwpan untro gyda Met Caerdydd.
- Y Cerddwyr: Gŵyl Gerdded 2019
- Llwybr Arfordir Cymru: Pecyn Cymorth Busnes

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

- Techniquet: Under the Sea: Digwyddiad Gyda'r Nos
- Sea Quest: Digwyddiad Cragen Porthcawl
- Awdurdod Harbwr Caerdydd: Digwyddiad Diwrnod Cefnforoedd y Byd
- RSPB: Ail-lenwi Ynys Dewi
- Gŵyl Fwyd y Fenni
- Tafwyl
- Run 4 Wales
- Sioe deithiol Cynaliadwyedd y GIG: Ymddiriedolaethau Ysbytai i roi gorsafoedd ail-lenwi mewn ysbytai.
- CADW: rhoi gorsafoedd ail-lenwi yn eu lleoliadau ledled Cymru.

Ar hyn o bryd, rydym yn paratoi ar gyfer y Diwrnod Ail-lenwi Cenedlaethol ar 19 Mehefin. Mae gennym gefnogaeth lawn Gweinidogion y Llywodraeth a'r tîm cyfathrebu a fydd yn mynd ati i hyrwyddo'r Diwrnod Ail-lenwi Cenedlaethol gyda datganiadau i'r wasg, digwyddiadau lansio, a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.



DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Partneriaeth Moroedd Glân

Prosiect Sbwriel Môr

Caiff y Prosiect Sbwriel Môr ei gynnal ar y cyd gan yr MCS, Cadwch Gymru'n Daclus ac Eonomia a'i nod yw cyflawni camau gweithredu o Gynllun Gweithredu Sbwriel Môr y Bartneriaeth Moroedd Glân, gan gynnal Statws Amgylcheddol Da erbyn 2020 o dan Gyfarwydddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE.

Mae ymdrech gydlynol rhwng Cadwch Gymru'n Daclus, Eonomia Consulting a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol wedi arwain at gynnal ymchwil gyda grwpiau gweithredu sbwriel môr, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch.

Hyd yma, mae'r prosiect wedi cynnal gweithdai strategaeth sbwriel, gan weithio gyda grwpiau cymunedol lleol, awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau Parciau Cenedlaethol) a sefydliadau fel Dŵr Cymru a Phrifysgol Caerdydd i geisio deall y cyfleoedd a'r heriau sy'n ein hwynebu ar lefel leol wrth fynd i'r afael â sbwriel a bwrw ymlaen gyda chynllun gweithredu sbwriel môr i Gymru. Cynhaliwyd y gweithdai yn y de, y canolbarth a'r gogledd. Cynhyrchwyd adroddiad yn crynhoi canfyddiadau pob gweithdy (nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus eto) ac yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol wrth i ni symud ymlaen gyda'r prosiect hwn o ran yr hyn y mae angen inni ei ystyried wrth edrych ar negeseuon allweddol cyson, gan greu cynllun clir yn galw am weithredu ac atal sbwriel ar raddfa genedlaethol.

Fel rhan o'r broses o edrych ar gyfleoedd a heriau ar lefel leol, cynhaliwyd arolygon gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i grynhoi ymyriadau, strategaethau, cyfundrefnau glanhau a chyfathrebu cyfredol. (Adroddiad ar gael yn fuan). Mae hyn hefyd yn cynnwys cynnal dadansoddiad gofodol o ddata Arolygon ar gyfer Rheoli Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS) a data Beachwatch o'r tair blynedd diwethaf.

Gan weithio gyda sefydliadau addysg uwch, mae'r prosiect hefyd wedi cynhyrchu ymchwil craff i weithgareddau cyfredol yn y sector hwn sy'n fwyaf perthnasol i'n dealltwriaeth ni o sbwriel môr a'r gallu i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr (MLAP) Cymru. Nid yw rôl hollbwysig ymchwil Prifysgol yn y maes hwn wedi'i gyfyngu i un maes ac mae gan amryw o ddisgyblaethau, o'r gwyddorau cymdeithasol i beirianeg a thechnoleg i'r gwyddorau naturiol, ran i'w chwarae wrth ystyried atebion i'n heriau presennol. Mae'r adolygiad o addysg uwch yn crynhoi rhai o elfennau allweddol ymchwil gyfredol, sefydliadau presennol a dyraniadau cyllid cyfredol fel y gallwn ystyried anghenion a blaenoriaethau'r dyfodol.

Yn fwyaf diweddar, rydym wedi cwblhau Adolygiad Arfer Gorau sydd wedi creu darlun o ymdrechion lleol, cenedlaethol a byd-eang i fynd i'r afael â sbwriel môr, gan edrych ar ymgyrchoedd a sefydliadau allweddol, addysg ac ymgysylltiad ysgolion, gweithgareddau grwpiau cymunedol, mentrau offer pysgota a phrosiectau a ariannwyd.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Cynhaliwyd gweithdy Partneriaeth Moroedd Glân ar 8 Mai, i helpu rhanddeiliaid i ddeall cynnydd y prosiect hyd yn hyn ac i adolygu cam nesaf y prosiect.

Mae Cam 2 y prosiect yn debygol o ddechrau ym mis Medi 2019 a gorffen ym mis Mehefin 2020 a bydd yn canolbwyntio'n bennaf ar addysg ac ymgysylltu â busnes. Fodd bynnag mae hyn yn ddibynnol ar gyllid.

Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth

Cafodd 79 traeth yng Nghymru eu glanhau yn ystod ein cyfres Big Spring Beach Clean: Summit to Sea, yn cynnwys un o'n cynrychiolwyr yn nofio 26km o'r Wyddfa i'r môr, gan gasglu sbwriel ar y ffordd. <https://www.sas.org.uk/news/campaigner-swims-26k-from-snowdon-to-the-sea-collecting-plastic-pollution-evidence/>

Erbyn hyn mae 55 o gymunedau cymunedol di-blastig ar waith ledled Cymru, gyda 13 ohonynt wedi ennill statws. Mae 72 o ysgolion Cymraeg wedi cofrestru ar ein rhaglen ysgolion di-blastig, ac yn olaf, yn ystod tair wythnos gyntaf mis Gorffennaf byddwn yn cynnal 24 o sesiynau 'Ocean Schools' ledled Cymru. Mae'r sesiynau am ddim ac yn agored i unrhyw ysgolion, ac mae modd gwneud cais nawr. Bydd o leiaf 5 o'r sesiynau yn cael eu darparu yn Gymraeg.

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched – digwyddiad Rhoi Pen ar Gawl Plastig

Crynodeb o ddigwyddiad galw heibio Rhoi Terfyn ar Gawl Plastig a gynhaliwyd yn y Senedd yn ddiweddar:- <https://www.thewi.org.uk/wi-in-Wales/news-and-events/End-plastic-Soup-Drop-in-event-at-the-National-Assembly-for-Wales>

Theatr Byd Bychan

Mae prosiect Cragen Moroedd Glân wedi'i gwblhau. Roedd ein perfformiad terfynol yn Harbwr Porthcawl ar 16/4 ac roedd y gwaith marchnata'n cynnwys logo Moroedd Glân Cymru. Mynychodd dros 3,000 o bobl gyda'r partneriaid SeaQuest yn creu digwyddiad gŵyl fechan yn cynnwys stondinau a gweithgareddau i'r teulu. Roedd Dŵr Cymru, Techniquet, yr RNLI, Cadwch Gymru'n Daclus ymhlith y rhai oedd yn cymryd rhan. Rhagorodd y prosiect 10 mis ar y disgwyliadau gan gyrraedd dros 33,000 o wylwyr gan ddenu sylw sylweddol ar y cyfryngau cymdeithasol. Rhoddodd ITV Wales sylw i Cragen a llygredd plastig ar newyddion 6pm ar 16/4.



DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Mae Theatr Byd Bychan wedi cwblhau ei haddewid, ond hoffem gadw mewn cysylltiad a pharau i ymroi i'r ymgyrch Moroedd Glân. Mae ein cynhyrchiad theatr amgylcheddol newydd yn mynd i'r afael â Bioamrywiaeth. Rydyn ni wedi dechrau ar y gwaith o wneud Peiriant Newid Pethau ac yn gwneud cais am grantiau i'w dywys ar draws Cymru yn 2020.

CADWCH GYMRU'N DACLUS



Mae Cadwch Gymru'n Dacclus wedi parhau i weithio gyda sefydliadau i leihau gwastraff. Ym mis Ionawr, cafodd menter newydd ei lansio ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd i fynd i'r afael â gwastraff cwpanau untro trwy gyflwyno cyfleusterau ailgylchu ac annog staff a myfyrwyr i newid i gwpanau amldro.

Roedd lleihau gwastraff yn destun allweddol i Eco-Sgolion oedd yn cymryd rhan mewn Eco Ddiwrnodau Gweithredu rhwng Ionawr a Mawrth. Gwnaeth y disgyblion ystod o weithgareddau, yn cynnwys gwasanaethau ysgol, diwrnodau di-blastig ac ymgyrchoedd #glanhautraethau2funud. Mae adnoddau yn seiliedig ar Eco Ddiwrnodau Gweithredu eleni, yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am leihau plastigau untro, wedi cael eu creu i gynorthwyo ysgolion eraill i wneud newidiadau cadarnhaol.

Cynhaliwyd ymgyrch glanhau cenedlaethol Cadwch Gymru'n Dacclus, Gwanwyn Glân Cymru, rhwng 22 Mawrth a 23 Ebrill. Cynhaliwyd dros 370 o ddigwyddiadau gyda miloedd o bobl yn ymuno i gasglu a gwaredu sbwriel o'n strydoedd, ein parciau a'n traethau yn ddiogel.

Fel rhan o'r ymgyrch – gyda chymorth awdurdodau lleol – gofynnwyd i wirfoddolwyr ailgylchu cymaint â phosibl gan ddefnyddio'r 'ymagwedd tair sach lawn', gan wahanu'r hyn yr oeddent yn ei gasglu i dair sach; un ar gyfer poteli plastig, un ar gyfer caniau alwminiwm ac un ar gyfer gwastraff cyffredinol.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019



Cyswllt Amgylchedd Cymru
Wales Environment Link

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi cynhyrchu ei drydydd cylchlythyr Pencampwyr Rhywogaethau ar gyfer gwanwyn 2019

<https://www.waleslink.org/cy/node/318>

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol



Rydym wedi cynnal arolygon tanddwr Seasearch helaeth gydag adroddiad llawn ar gael yma:

<http://www.seasearch.org.uk/achievements.html#Wal>

Newyddion Seasearch

Arolygon o rywogaethau â blaenoriaeth. Anemoni Gwyntyll y Môr - Amphianthus dohrnii yn ne Dyfnaint a Chernyw. Mae adroddiad Seasearch wedi'i gyhoeddi ar brosiect monitro ffotograffig chwe blynedd a gynhaliwyd ar longddrylliad y Rosehill yn Whitsand Bay, Cernyw gan Sally Sharrock o Devon Seasearch.

www.seasearch.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth, [cysylltwch â Charlotte.Bolton@mcsuk.org](mailto:cysylltwch@Charlotte.Bolton@mcsuk.org)

Mae MCS yn rhan o brosiect O'r Mynydd i'r Môr. Am ragor o wybodaeth ewch i <https://www.rewildingbritain.org.uk/our-work/Summit-to-SEA-or-Mynydd-ir-mor>

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019



O'r Mynydd i'r Môr-Rewilding Britain

Nod ein prosiect cyntaf yng nghanolbarth Cymru yw dangos y gall fod dyfodol gwahanol i'r tir a'r môr, sy'n gweithio i bobl ac i natur. Mae O'r Mynydd i'r Môr yn fenter i adfer ecosystemau llewyrchus ac economi leol gydnerth, ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen ym Mhrydain.

Cool Seas Explores | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol



Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol wedi ychwanegu at ein gwaith addysg drwy ein Canolfan Archwilwyr Moroedd Glân:

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS) yw prif elusen y DU ar gyfer diogelu ein moroedd, ein glannau a'n bywyd gwyllt. Mae ein moroedd dan bwysau aruthrol: gormod o bysgod yn cael eu tynnu allan, gormod o sbwriel yn cael ei daflu i mewn a does dim digon yn cael ei wneud

www.mcsuk.org

Rydym wedi diweddarau ein sgoriau bwyd môr cyfrifol yn ein Canllaw Pysgod Da, sydd bellach â chanllaw ar fysedd pysgod: <https://www.mcsuk.org/responsible-seafood/>

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019



Bwyd môr cyfrifol | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

Bwyd môr cyfrifol. Erioed wedi meddwl o ble
mae'r pysgodyn rydych chi'n ei fwyta yn dod?
Neu os ydych chi'n dewis y rhai cywir?
Defnyddiwch y Canllaw Pysgod Da i wneud
dewis cynaliadwy. Dydy dyfodol y swper
pysgod ymhell o fod yn ddiogel.

www.mcsuk.org

Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol wedi lansio ymgyrch Bottle for Change i godi
proffil ymgynghoriad y Cynllun Dychwelyd Ernes ac annog pobl i gymryd rhan.

Mae'r manylion i'w gweld yma:

<https://www.mcsuk.org/campaigns/bottles-for-change-business>

Action for Business | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol



Action for Business. Rydym yn chwilio am
gymorth gan fusnesau bach a mawr, diwydiant,
seneddwyr a sefydliadau eraill ar gyfer Cynllun
Dychwelyd Ernes ar gyfer poteli a chaniau a fydd
yn sicrhau newid cadarnhaol go iawn i'n
cefnforoedd. www.mcsuk.org

Hefyd ym mis Ionawr, cynhaliodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol ddigwyddiad
Peiriant Gwerthu o Chwith llwyddiannus yn y Senedd, a fynychwyd
gan 14 AC o bob plaid heblaw UKIP.

Fforwm Arfordirol Sir Benfro

Cod Morol Sir Benfro - Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu i
hyrwyddo'r rhesymau, nodau a manteision ymestyn y Cod
Morol i Ben Llŷn a Sarnau yn Aberdyfi ac Abersoch. Yn Sir
Benfro, cynhaliwyd diwrnodau hyfforddiant ar gyfer tywyswyr
antur ac aelodau'r gymuned: adnabod pyllau creigiau / fflora a ffawna glan môr;
Daeareg, newid yn yr hinsawdd ac arfordiroedd sy'n newid. Dywedwyd bod adborth



DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

a hunan-blismona Bwiau Cod Morol yn llwyddiannus ac fe'i ail-leolir ar gyfer y flwyddyn pedwar. Fersiwn Cymraeg o'r Ap Cod Morol yn barod.

<https://www.pembrokeshiremarinecode.org.uk/>

Rheolaeth Hamdden Gynaliadwy - Mewn partneriaeth â'r Siarter Arforgampau Genedlaethol cynhaliwyd gweithdy arforgampau ym mis Mawrth i amlygu a rhannu arferion gorau gan gynnwys diogelwch a lleihau effeithiau ar yr amgylchedd naturiol. Cyflwynwyd dau ddiwrnod hyfforddiant yn cysylltu'r sectorau twristiaeth awyr agored ac ehangach gan ganolbwyntio ar adar môr a lleihau effeithiau gweithgareddau; blodau gwyllt a pheillwyr. <https://www.pembrokeshireoutdoors.org.uk/>

Mapio Gweithgaredd Cymru - Mae cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol wedi dechrau i ddiweddarau'r system. Gwneir gwelliannau gweledol a gwelliannau i ddefnyddwyr, ac mae gweithgareddau ychwanegol i'w hadrodd yn cynnwys cloddio am abwyd, teithio SUP a physgota môr wedi'i rannu ar y traeth / mewn cwch; gwyllo'r machlud; gwersylla dros nos; awyrennau ysgafn wedi'u pweru / heb eu pweru; gwersylla gwyllt; hedfan drôn; ardal digwyddiadau; casglu adnoddau byw. <http://www.walesactivitymapping.org.uk/>

Adeiladu Cydnerthedd mewn Dalgylchoedd: BRICS – adroddiad drafft 'Gyrwyr a Strwythur' (Drivers and Structure) a adolygwyd gan Is-grŵp PES BRICS gan gynnwys. ID y Fframwaith Rhanddeiliaid a Sefyllfaol / Adnabod Gyrwyr / Gofynion cynllun arfaethedig / Dadansoddiad o'r model EnTrade. Bydd yr adroddiad nesaf yn dangos: Meintioli lleihau maeth / Camau Gweithredu Rheolaeth / Ffit ochr yn ochr â Rheoliad / Polisi. <https://www.planed.org.uk/brics/>



Ynni Morol Cymru - Cynhadledd Ynni Morol Cymru ym mis Ebrill gyda 200+ o gynrychiolwyr byd-eang yn bresennol, Prif Siaradwr, Lee Waters, AC. Lansiodd Prif Weinidog Cymru adroddiad Ynni Morol Cymru [State of the sector](#) sy'n rhoi trosolwg o sector morol Cymru. Mae prosiect Morol Doc Penfro, Dinas Abertawe yn mynd rhagddo trwy broses gymeradwyo <https://www.marineenergywales.co.uk/marine-energy-in-wales/projects/pembroke-dock-marine/> Mae gwaith ORJIP ar y broses gydsynio yng Nghymru yn erbyn dulliau mewn gwledydd datganoledig eraill i gael ei gwblhau ym mis Ebrill.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Ardal Profi Ynni Morol - META Mae cynllunio a chaniatáu META yn mynd rhagddo gyda dull graddol yn cael ei weithredu. Arddangosfeydd cynnar SHE a chyhoeddus ym mis Rhagfyr (100 yn mynychu ar draws y 5 digwyddiad). Mae adborth a gafwyd mewn digwyddiadau yn dangos boddhad 97% gan randdeiliaid gyda'r ardaloedd prawf arfaethedig. <https://www.marineenergywales.co.uk/meta/>

Gwaith ehangach Fforwm Arfordirol Sir Benfro mewn materion morol: Gweithio gyda WWF UK a Phrifysgol Abertawe ar gwmpasu ymgysylltiad rhanddeiliaid adfer morwellt; Parhau i reoli'r Concordat Arforgampau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i sicrhau defnydd cynaliadwy o safleoedd Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer grŵp llywio Freshwater West gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RNLI, yr awdurdod lleol; Mae dichonoldeb gweithgareddau twristiaeth ar gyfer Bro Morgannwg yn parhau; Roedd digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Wymon a Dyframaethu yn llwyddiannus gyda cheisiadau pellach am ymgysylltu / cydlynw; Rhannu arfer gorau gyda Chynghorau Dinas Abertawe a Cheredigion ar godau ymddygiad gwirfoddol a chytundebau yn erbyn prydlesu ffurfiol gweithgarwch arfordirol; Gweithio gyda Chyngor Tref Doc Penfro i wneud y gorau o gyfleoedd ac effaith Erthygl Cerflunio Sbwriel Morol (Bertie) <http://www.tenby-today.co.uk/article.cfm?id=124467&headline=%27Bertie+the+Sea+Bass%27+makin+g+his+way+to+Pembroke+Dock§ionIs=news&searchyear=2019>.

Prosiect piblinellau: Cymunedau Arfordirol yn Addasu Gyda'i Gilydd (CCAT) – Bid Interreg. Cryfhau ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb cymunedau lleol a rhanbarthol tuag at eu hamgylchedd, eu tirweddau, eu diwylliannau. Canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd.

Prosiect CHERISH



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru

Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

Mae CHERISH (Climate, Heritage and Environments of Reefs, Islands and Headlands) yn brosiect 5 mlynedd (2017-2021) rhwng Cymru ac Iwerddon a ariennir gan Ewrop rhwng Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, y Discovery Programme: Centre for Archaeology and Innovation Ireland, Prifysgol Aberystwyth: Adran

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear a Geological Survey Ireland. Bydd y prosiect yn derbyn €4,100,000 drwy raglen Interreg 2014-2020 Iwerddon-Cymru.

Prosiect traws-ddisgyblaethol yw CHERISH. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd, stormydd a thywydd eithafol ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog moroedd ac arfordir rhanbarthol Iwerddon a Chymru – ddoe, heddiw ac yn y dyfodol agos. Mae'n defnyddio technegau arloesol i astudio rhai o leoliadau arfordirol mwyaf eiconig Iwerddon a Chymru. Am ragor o fanylion ewch i www.cherishproject.eu

Mae Geological Survey of Ireland wedi cynhyrchu adroddiad o waith arolygu a gynhaliwyd yn ardaloedd CHERISH oddi ar Ynys Môn yn 2018. Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o fanylebau, safonau a mesurau rheoli ansawdd yr arolwg. Mae'n darparu cofnod o'r setiau data a gafwyd yn ystod gweithrediadau a disgrifiad o sut y proseswyd y data. Nododd prosiect CHERISH nifer o safleoedd o gwmpas Ynys Môn lle roedd angen arolygon bathymetrig manwl ar gyfer y prosiect. Targedwyd nifer o longddrylliadau hefyd. Gellir darllen yr adroddiad llawn yma:



KRY18_03_Anglesey_
final.pdf

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019




Yn Coffáu'r Rhyfel ar y Môr Commemorating the War at Sea

Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Prifysgol Bangor, a'r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol.


Bellach yn ei ail flwyddyn, mae'r gwaith morol sy'n cael ei wneud gan y partneriaid yn 2019 yn cynnwys lansio menter Irecord (www.BRC.ac.uk/irecord/) i gasglu delweddau bywyd morol a gwybodaeth o arolygon ecolegol gan ddeifwyr am longddrylliadau dethol y Rhyfel Byd Cyntaf, ac ail ysgol maes archaeolegol tanddwr ar longddrylliad y Leysian ger Abercastell a fydd yn cael ei chynnal o 7-17 Mehefin.

Bydd y prosiect hefyd yn gweithio gyda Menter Seasearch y Gymdeithas Cadwraeth Forol i hyfforddi a chynnwys gwirfoddolwyr yn y gwaith o adnabod bywyd y môr o ddelweddau a gymerwyd o nodweddion allweddol ac ar hyd trawsluniau a gynlluniwyd i archwilio amrywiol gynefinoedd arbenigol a gynigir gan safleoedd llongddrylliad.



Arolwg ecosofaidd aml-lawr o'r U-87 a suddwyd gan longau patrolio Prydain ar 25 Rhagfyr 1917

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019



Arolwg ecoseinydd aml-ffa o'r Damão
wedi'i suddo gan U-91 ar 28 Ebrill
1918

Y safle a ddewiswyd ar gyfer yr ysgol maes archaeolegol tanddwr cyntaf yn 2018 oedd y Cartagena, cyn long dreillio'r Morlys a adeiladwyd ym 1917. Casglwyd fideo tanddwr a thros 1400 o ddelweddau ffotograffig o fywyd morol y llongddrylliad gan aelodau'r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol a chlybiau deifio oedd yn cymryd rhan. Mae'r delweddau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd yn Ysgol Gwyddorau Eigion, Prifysgol Bangor, er mwyn helpu i greu arweiniad rhagarweiniol i'r rhywogaethau morol mwyaf cyffredin mewn llongddrylliadau. Bydd y canllaw yn ymddangos ar wefan y prosiect.

Mae'r arolygon ecoseinydd aml-belydr o ddeunaw llongddrylliad o'r Rhyfel Byd Cyntaf a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor yn 2018, yn cynnwys llongau

masnachol mawr (a ddangosir ar y chwith), a cholledion llongau tanfor Prydain a'r Almaen (a welir uchod). Mae modelau digidol rhyngweithiol 3D a gynhyrchwyd o'r data bellach ar gael ar wefan y prosiect: <https://ubootproject.wales/>



Ymddiriedolaeth Porthladd Saundersfoot Trust Port of Saundersfoot



canolfan arfordir
rhyngwladol Cymru

Canolfan Arfordir Rhyngwladol Cymru

Diweddariadau i'r prosiect

Bydd Canolfan Rhagoriaeth y Môr a'r Ganolfan Stormydd (sy'n cael ei hadeiladu) yn cael ei throsglwyddo i'r Harbwr ddiwedd Tachwedd eleni. Bydd y Ganolfan yn cynnig yr un cyfleusterau ag a nodwyd yn ein strategaeth yn 2015. Disgwylir y bydd ein tenantiaid newydd wrthi'n masnachu erbyn Mai 2020.

DIWEDDARIAD RHANDDEILIAID DEFNYDDWYR Y MOR – MEHEFIN 2019

Datblygiad Ocean Square. Disgwylir y bydd tendr yn cael ei ddyfarnu ym mis Gorffennaf ac ar y safle ym mis Awst, ond mae hyn yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael gan y contractwr.

Disgwylir iddo gael ei gwblhau rhwng misoedd Medi a Hydref 2020 gyda thenantiaid yn masnachu yn y flwyddyn newydd.

Sgwner Treftadaeth. Disgwylir i'r tendr gael ei ddyfarnu ym mis Gorffennaf. Mae'r gwaith adeiladu'n amodol ar gyfyngiadau adeiladu a thendrau, ond disgwylir y bydd y cwch ar y safle erbyn Hydref 2020 fan bellaf. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y sgwner yn atyniad enfawr ar y dec digwyddiadau cenedlaethol.

Gall y **Dec Digwyddiadau Cenedlaethol**, sydd bellach wedi'i gwblhau, ddal torf o 4000. Rydym eisoes wedi cyflwyno cyngherddau gan Gôr Meibion Dinbych-y-pysgod a Cherddorfa Ffilharmonig Caerdydd. Mae'r dec yma'n gorchuddio llifddor yr harbwr, felly rydym yn cadw defnydd hanfodol o'r llifddor a'r ardal boblogaidd lle mae plant yn casglu crancod.

Bydd y gwaith o adeiladu'r Sgwner yn cymryd llawer iawn o le ar y llawr. Felly mae nifer cyfyngedig o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer eleni a 2020.

